Cyngor Cymuned y
# Mwmbwls



# Cylchlythyr 2025
mumbles.gov.uk

# Adroddiad Cadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls, y Cynghorydd William Thomas



Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o'r cyfnodau pwysicaf o ran cyfrifoldeb a chyflawniad i Gyngor Cymuned y Mwmbwls. Pan oedd yn rhaid i ni gamu i mewn a chymryd drosodd reolaeth weithredol o Hyb Underhill ar fyr rybudd, ymatebodd ein staff, ein cynghorwyr a'n partneriaid mewn ffordd eithriadol. Rwyf am ddweud yn gyhoeddus pa mor falch ydw i o dîm Cyngor Cymuned y Mwmbwls am gamu ymlaen, dros y gymuned a chlybiau chwaraeon lleol, gan ddangos beth all gael ei gyflawni pan fydd ein cymuned yn cydweithio.

Rydym nawr yn symud i'r cyfnod cyffrous o lunio'r weledigaeth a chynnig hirdymor ar gyfer Hyb Underhill a'r cae artiffisial – nid yn unig fel cyfleusterau, ond fel ased cymunedol a fydd yn gwasanaethu teuluoedd, chwaraeon, diwylliant, llesiant a bywyd lleol y Mwmbwls am flynyddoedd lawer i ddod.

Hoffwn hefyd ddiolch i Gyngor Abertawe am y gefnogaeth ariannol a ddarparwyd ganddynt i helpu i alluogi'r newid hwnnw. Gwnaeth y gefnogaeth honno wahaniaeth gwirioneddol, a dylid cydnabod y cydweithrediad rhwng Cyngor Cymuned y Mwmbwls a Chyngor Abertawe mewn perthynas â Hyb Underhill fel enghraifft gadarnhaol o weithio mewn partneriaeth.

Ochr yn ochr â Hyb Underhill, mae Cyngor Cymuned y Mwmbwls hefyd wedi comisiynu gwaith i adnewyddu cwrt pêl-fasged Langland a goleuadau bolard newydd ar gyfer Hyb Underhill – a bydd gwaith ar y ddau prosiect yn dechrau cyn bo hir. Ac, wrth gwrs, rydym yn hynod falch o'r morglawdd newydd, sydd nid yn unig yn amddiffyn cartrefi ond sydd hefyd wedi dod yn welliant gwych i dir y cyhoedd ac i olwg a theimlad y pentref.

Rwyf hefyd am dynnu sylw at y ffaith bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi ennill gwobr y Gwasanaeth Cyngor Lleol Gorau yng Nghymru eleni yng Ngwobrau Un Llais Cymru – cyflawniad enfawr a chydnabyddiaeth bwerus o'r cynnydd, y gwelliant, y proffesiynoldeb a'r uchelgais rydym wedi'u dangos fel cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn dechrau cyfnod o ddwy flynedd lle bydd etholiadau ar lefel y Senedd ac yna ar lefel llywodraeth leol. Bydd hynny'n anochel yn dod â thwrw, dadl a gwleidyddiaeth i'r byd cyhoeddus. Ond fel cadeirydd, rwyf am i Gyngor Cymuned y Mwmbwls barhau i ganolbwyntio'n gadarn ar gyflawni – darparu cyfleusterau cymunedol, cyflawni gwelliannau, cynnal digwyddiadau, a darparu gwerth go iawn i bobl y Mwmbwls. Nid tynnu sylw… ond cydweithio. Nid rhaniad… ond pwrpas a rennir.

William Thomas

# Ward Mayals

**Mae Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi bod yn gweithio'n agos gyda thrigolion Mayals a grwpiau lleol i wella'r ardal.**

## Bylbiau

- Plannwyd miloedd o fylbiau'r gwanwyn ar gyfer planhigion sy'n gysylltiedig â Chymru – cennin Pedr, clychau'r gog, eirlysiau, crocysau, anemonïau, a thiwlipau – ar draws Mayals.
- Daeth yr arddangosfeydd bywiog â llawenydd i drigolion, gyda mwy o blannu wedi'i gynllunio ar gyfer 2026.
- Diolch arbennig i bractis milfeddygon St James am eu rhodd o £100.





## Meinciau

- Atgyweiriodd Cyngor Cymuned y Mwmbwls feinciau wedi torri gan ddefnyddio slatiau pren newydd, gan gadw'r costau i ddim ond £100 ar gyfer deunyddiau.
- Diolch yn fawr iawn i Phil Slater am ei waith gwirfoddol medrus yn adfer seddi ar draws y ward.

# Ward Mayals

## Gwesty Pryfed

Cafodd dau bost pren ger Owls Lodge Lane eu trawsnewid yn westy pryfed.

• Mae'r nodwedd ddiddorol hon yn cefnogi bioamrywiaeth leol diolch i'r rhai a helpodd gyda hyn.



## 'Arosfan' Llyfrau Bach

• Da iawn i'r athrawes wedi ymddeol, Kath Ferguson, a helpodd i sicrhau "Arhosfan Llyfrau Bach" Penguin yn Mayals.

• Un o ddim ond 90 a ddyfarnwyd ledled y DU i nodi pen-blwydd Penguin yn 90 oed, wedi' i dewis o blith dros 2,000 o ymgeiswyr.




## Blychau trydanol wedi'u paentio

• Peintiwyd saith blwch trydanol gyda dyluniadau wedi'u hysbrydoli gan dirnodau lleol:

- Y Bont Japaneaidd
- Pyllau Clun
- Traeth Blackpill
- Cennin pedr ar Mayals Road
- Y bont Rufeinig ar Mill Lane

• Mae'r gweithiau celf bywiog hyn yn dathlu treftadaeth Mayals ac yn bywiogi'r strydoedd.

# Ward Mayals

## Haf o Hwyl

- Croesawodd digwyddiad Haf o Hwyl yng Ngerddi Clun dros 400 o ymwelwyr ym mis Awst.
- Cefnogwyd gan Mumbles Rangers, sglodion Nellie May, Go Explore Learn, sgiliau syrcas Organised Kaos, a mwy.
- Diwrnod llawn heulwen, chwerthin ac ysbryd cymunedol.





## Lloches Gerddi Clun

Helpodd Cyngor Cymuned y Mwmbwls i ddylunio a rhannol ariannu lloches awyr agored newydd ger ystafell de The Touring Tea Room.

- Dan arweiniad Cyfeillion Gerddi Clun, wedi'i adeiladu gan Dragonfly Creations Ltd gan ddefnyddio pren caled Gŵyr a llechi o Gymru wedi'u hailgylchu.
- Nodwedd newydd hyfryd i ymwelwyr ei mwynhau.



Cyng **Helen Nelson**



Cyng **Tim Zohu**



Cyng **Laura Gilbert**

# Ward Newton

## Morglawdd a gwelliant lleol

Mae Prosiect Amddiffyn Morglawdd y Mwmbwls bellach wedi'i gwblhau, ac mae'r trawsnewidiad yn wirioneddol drawiadol. Yr haf hwn datgelwyd y plac coffa yn swyddogol, gan nodi diwedd carreg filltir bwysig. Gyda goleuadau garlant cain a miloedd o blanhigion a llwyni lliwgar, mae'r promenâd bellach yn cynnig awyrgylch cynnes a chroesawgar ar gyfer trigolion ac ymwelwyr.



• Mae'r promenâd wedi'i wella gyda goleuadau garlant a llwyni ac arddangosfeydd tymhorol sydd wedi'u plannu ar raddfa fawr.
• Mae offer chwarae newydd yn cynnwys sleid sy'n cysylltu'r prom â'r maes chwarae, gan ychwanegu cyswllt hwyliog ar gyfer plant a theuluoedd.
• Mae 47 o opsiynau eistedd newydd wedi'u gosod: meinciau picnic hygyrch, seddi wal, meinciau mawr 'ynys', a lolfeydd haul ar gyfer ymlacio.



## Prosiectau cymunedol

### Hyb Underhill

• Mae Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn rheoli Hyb Underhill tan ddiwedd y flwyddyn; mae'r lleoliad wedi bod yn brysur ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan y gymuned.
• Mae Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi cytuno y bydd goleuadau bolard ychwanegol yn cael eu gosod tu allan i Hyb Underhill yn fuan i wella'r llwybr o'r maes parcio i'r cae yn ystod nosweithiau tywyllach.
• Mae Tost a Theganau yn ddigwyddiad newydd ac mae'n cael ei gynnal bob dydd Iau, rhwng 9am a 12pm – tost am ddim, teganau, a gofod cyfeillgar ar gyfer gofalwyr a phlant.

# Ward Newton



## Diwrnod hwyl i'r teulu ym Mharc Underhill

Yn gynharach eleni, daeth Parc Underhill yn fyw gyda'n Diwrnod Hwyl i'r Teulu – prynhawn gwych o chwerthin, gweithgareddau, ac ysbryd cymunedol. Ymunodd teuluoedd o bob cwr o'r Mwmbwls â ni am ddiwrnod llawn adloniant, o gemau plant a chelf a chrefft, i sesiynau blasu chwaraeon ac arddangosiadau byw.

Roedd yr haul yn tywynnu, cymerodd grwpiau lleol ran yn y digwyddiadau, ac roedd y parc yn llawn wynebau'n gwenu. Mae digwyddiadau fel hyn yn ein hatgoffa pa mor arbennig yw ein cymuned, ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ddaeth draw, a wirfoddolodd, a gefnogodd, a helpodd i wneud y diwrnod yn gymaint o lwyddiant.

## Taith trên Siôn Corn

Dychwelodd ein taith trên Siôn Corn i'r Mwmbwls ar ôl llwyddiant ysgubol digwyddiad y llynedd – ac unwaith eto roedd yn llwyddiant ar unwaith gyda theuluoedd ledled y gymuned. Mewn gwirionedd, gwerthwyd y cwbl yn gynt nag y mae Siôn Corn yn dod i lawr y simnai!

Mwynhaodd y plant daith hudolus ar hyd y prom, yn cwrdd â Siôn Corn ei hun ac yn amsugno ysbryd y Nadolig cyn mynd i weld goleuadau'r Nadolig yn cael eu troi ymlaen. Roedd yr awyrgylch yn llawn cyffro, chwerthin a rhyfeddod, gan ei wneud yn un o'n digwyddiadau tymhorol mwyaf poblogaidd hyd yn hyn.



Cyng **William Thomas**



Cyng **Angela O Connor**



Cyng **Rob Marshall**



Cyng **Ian Scott**

# Ward West Cross

Mae Canolfan Gymunedol West Cross yn parhau i ffynnu fel canolfan weithgarwch a chysylltiad, diolch i gefnogaeth Cyngor Cymuned y Mwmbwls a gwirfoddolwyr ymroddedig.

## Gweithgareddau Gwener i'r teulu a Chanolfan Clyd

- Cynhelir Gweithgareddau Gwener i'r teulu ddwywaith y mis, ac maent yn cynnig karaoke, crefftau, gemau bwrdd, peintio War Hammer a nosweithiau Pokémon.
- Mae plant yn mwynhau'r neuadd eang tra bod oedolion yn ymlacio gyda chawl, pizza, cacen a phaned.
- Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn mynychu'n rheolaidd, gan gryfhau cysylltiadau cymunedol.
- Mae'r Ganolfan Glyd yn dychwelyd yn wythnosol o fis Tachwedd ymlaen, gan gynnig lle clyd i gysylltu a chael pryd o fwyd yng nghwmni unigolion eraill.








## Nosweithiau Cwis Cymunedol

- Bellach wedi'i gynnal am bedwaredd flwyddyn, mae'r cwis misol yn digwydd bob trydydd dydd Gwener.
- Mae cwisfeistri sy'n cylchdroi a chyfranogwyr amrywiol yn cadw pethau'n ffres.
- Byrbrydau ar gael; gall gwesteion ddod â'u diodydd eu hunain.
- Wedi'i gefnogi gan roddion gan Tesco a'r Co-op, wedi'i gydlynu gan wirfoddolwyr Caffi West Cross.

# Ward West Cross

## Tymor arswydus a hwyl Nadoligaidd





- Uchafbwyntiau Calan Gaeaf: disgo gwisg ffansi, peintio wynebau, gwyddoniaeth arswydus, a chŵn poeth.
- Newydd eleni: "Gig Calan Gaeaf" yn cynnwys bandiau lleol o Abertawe, sef Wistful, SPWCI a Doork.
- Mae digwyddiadau'r Nadolig yn cynnwys crefftau Nadoligaidd, groto Siôn Corn (gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu), a'r Cwis Nadolig ar 19 Rhagfyr.

## Caffi West Cross yn Neuadd Gymunedol Baywood

- Wedi'i lansio eleni, mae'r caffi yn gweithredu gan ddefnyddio model pantri cymunedol.
- Yn cynnig bwyd fforddiadwy a lle croesawgar i sgwrsio.
- Mae gwirfoddolwyr, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Cydlynwyr Ardal Leol, a chynghorwyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn mynychu'n rheolaidd.



# Ward West Cross

## Prosiect Red Community ac ymgysylltu â phobl fanc

- Mae Canolfan Linden yn cynnal:
  - Banc bwyd lleol
  - Brecinio cymunedol wythnosol
  - Ciniawau misol
  - Côr Atgofion Cerddorol
- Mae Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn cefnogi Clwb Ieuenctid West Cross (blynyddoedd 6 i 9) gyda gweithgareddau dan arweiniad ieuenctid yn ystod y tymor.



**Cyng Phil Keeton**



**Cyng Sara Keeton**



**Cyng Pam Erasmus**



**Cyng David Lewis**



**Cyng Rebecca Fogarty**

**Cyng Xanthe Keeton**

## Gerddi Jiwbilî

Wedi'i agor yn swyddogol ym mis Ebrill, mae Erddi Jiwbilî yn hafan bywyd gwyllt yn cynnwys planhigion cynhenid cynaliadwy.

- Diolch i staff a gwirfoddolwyr, mae bellach yn fan tawel ar gyfer bywyd gwyllt ac ymwelwyr.
- Mae croeso i chi alw heibio'r tro nesaf y byddwch chi'n mynd heibio!





# Ward Ystumllwynarth

Mae Ystumllwynarth yn parhau i fod yn gymuned fywiog a chlos, gyda thrigolion, grwpiau lleol a busnesau i gyd yn cyfrannu at ysbryd unigryw'r ward.

Yng Nghanolfan Ostreme, ariannodd Cyngor Cymuned y Mwmbwls olau newydd ar gyfer achlysuron arbennig i nodi digwyddiadau a dathliadau sy'n codi ymwybyddiaeth.

• Cafodd y golau ei droi ymlaen gyntaf ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth ynghylch Colli Babanod ac fe'i defnyddiwyd yn fwyaf diweddar i ddathlu Diwali, gan gynnig symbol gweladwy o undod a chofio.

## Digwyddiadau a gweithgareddau

• Roedd dathliadau 80 mlynedd ers Diwrnod VE yng Nghanolfan Ostreme yn ddiweddar yn llwyddiant ysgubol, ac roedd yn cynnwys adloniant gan Rob Hendry a chanu gan anwylyd y Llu Awyr Brenhinol, Madlen Forward.
• Dechreuodd pedair sesiwn blasu cerddoriaeth Gwerin a Blŵs gyntaf yn y Vic a gobeithiwn y byddant hyd yn oed yn fwy pan fyddant yn dychwelyd y flwyddyn nesaf.

## Helfa Chwilod Ysgol Ystumllwynarth

Cynhaliodd Cymdeithas Rhandiroedd Maes Upper Norton helfa chwilod ar gyfer plant o Ysgol Gynradd Ystumllwynarth. Cymerodd y plant gardiau adnabod pryfed a photiau pryfed i weld pa bryfed y gallent ddod o hyd iddynt mewn lleoedd megis tomenni compost, ardaloedd blodau gwyllt, gwelyau uchel a lleiniau llysiau i ddysgu am bwysigrwydd peillwyr ac infertebratau ar gyfer pridd a phlanhigion iach.

## Sesiwn Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls

Dychwelodd Sesiwn Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls am yr ail flwyddyn gyda chynulleidfa o dros 50 o unigolion yn gwrando ar y beirniaid gwadd Teifion Davies, Megan Jordan, Kate Davies a Magge Carr yn ateb cwestiynau ar bynciau mor amrywiol â delio â phlâu a chlefydau cyffredin, dewis planhigion i roi lliw i'r ardd gyfan, a sut i annog mwy o wenyn a pheillwyr i ymweld â'ch gardd. Chwiliwch am Sesiwn Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls 26, sy'n cael ei chynnal ym mis Mawrth.

## Casglu sbwriel Gŵyl y Mwmbwls

Fe wnaeth tîm bach ond nerthol o gasglwyr sbwriel sicrhau bod y stryd o amgylch y castell yn lân ar ôl Gŵyl y Mwmbwls.

## Caffi Cymorth

Mae'r Caffi Cymorth wedi darparu lle diogel a chynhwysol ag ysbryd cytgord i'r rhai sy'n chwilio am glust i wrando neu foment o dawelwch. Mae preswylwyr wedi gallu galw heibio, siarad yn agored, neu eistedd a mwynhau'r amgylchedd cefnogol a grëwyd gan wirfoddolwyr a staff. P'un a oedd rhywun angen cyngor, sicrwydd, neu ddim ond wyneb cyfeillgar, mae'r Caffi Cymorth wedi bod yno i helpu. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at wneud y fenter hon yn rhan mor werthfawr o'n cynnig cymunedol.

# Ward Ystumllwynarth

## Diwrnod Hwyl i'r Teulu Ystumllwynarth

Ym mis Awst, dychwelodd y Diwrnodau Hwyl i'r Teulu hynod boblogaidd. Cynhaliwyd Diwrnod Hwyl Ystumllwynarth ym Mharc Underhill gyda phlant yn mwynhau cestyll neidio, pêl-droed a chrefftau amgylcheddol, ac yna brechdanau a ddarparwyd gan Gaffi West Cross gan ddefnyddio bara dros ben o archfarchnadoedd lleol.

## Cydweithfa Cnydau'r Mwmbwls

Mae prosiect Cydweithfa Cnydau'r Mwmbwls wedi dechrau yng Ngwarchodfa Natur Norton gyda gwelyau uchel a thŷ gwydr. Dros yr haf, plannodd gwirfoddolwyr saladau, tomatos, bresych, radisys a betys a chawsant eu gwobrwyo am eu hymdrechion gyda chynnyrch ffres hyfryd i'w gymryd adref. Mae gwelyau newydd wedi'u cynllunio ar gyfer Canolfan Ostreme a thu allan i Ardd Jiwbilî a phan ddaw'r gwanwyn byddant yn gweithredu'n llawn.

## Su'r Mwmbwls yn ei Blodau

Daeth cystadleuaeth Su'r Mwmbwls yn ei Blodau 2025 i ben gyda digwyddiad cyflwyno yn Hyb Underhill ym mis Tachwedd. Rhoddodd Teifion Davies, a fu gynt yn gweithio yng Ngerddi Clun, sgwrs ynghylch ffyngau lleol – pwy a wyddai y gallai fod mor ddiddorol! – ac yna cyflwynodd y gwobrau i'r gerddi gorau, mawr a bach, o bob cwr o ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls.



## Coffi gyda ffrindiau

Parhaodd ein sesiynau Coffi gyda Ffrindiau i ddod ag unigolion ynghyd ar gyfer sgwrs hamddenol, cwmni a chysylltiad. Wedi'u cynnal yn rheolaidd mewn lleoliad croesawgar, roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnig cyfle i drigolion gwrdd â phobl newydd, rhannu straeon, a mwynhau diod gynnes mewn cwmni da. Mae'r awyrgylch cyfeillgar wedi gwneud "Coffi gyda Ffrindiau" yn ffordd syml ond ystyrlon o gryfhau ysbryd y gymuned, ac rydym wrth ein bodd yn ei weld yn tyfu o ran poblogrwydd.



Cllr **Martin O'Neill**



Cllr **Richard Jarvis**



Cllr **Carrie Townsend Jones**



Cllr **Trevor Carr**



Cllr **Francesca O'Brien**

# Cyfarchion y Tymor gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls

Wrth i'r flwyddyn ddod i ben, rydym yn estyn ein diolch i bawb yn ein cymuned. Bydded i'r tymor Nadoligaidd hwn ddod â llawenydd, heddwch a chysur i chi a'ch anwyliaid.

Cyfeiriad: Minor Hall, Canolfan Ostreme, Castle Avenue, y Mwmbwls, Abertawe, SA3 4BA Rhif ffôn: 01792 363598
E-bost: council@mumbles.gov.uk
Gwefan: www.mumbles.gov.uk

## Elusennau Lleol yn Cynnig Cefnogaeth Nadoligaidd yn Abertawe a'r Mwmbwls

**Jac Lewis Foundation (Abertawe)** – cYmddiriedolaeth Jac Lewis (Abertawe) – cymorth iechyd meddwl a llesiant, cwnsela, a mentrau gwydnwch cymunedol.
Rhif ffôn: 03301 336510
Website: jaclewisfoundation.co.uk

**Faith in Families (Abertawe a'r Mwmbwls)** – cefnogi plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi ac yn profi argyfwng a thrawma ar draws Bae Abertawe. Mae eu hymgyrch Compassionate Christmas yn sicrhau bod plant yn deffro i anrhegion a llawenydd yr ŵyl.
Rhif ffôn: 01792 653344 Gwefan: faithinfamilies.wales

**Crisis Skylight De Cymru (Abertawe)** - yn darparu cynhesrwydd, gofal iechyd, bwyd a chwmni i unigolion sy'n profi digartrefedd drwy gydol mis Rhagfyr.
Rhif ffôn: 0300 636 1967 Gwefan: crisis.org.uk

**Age Cymru Gorllewin Morgannwg (Abertawe)**
Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol a heneiddio'n dda. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys cyngor, cymorth cartref, gofal dementia, a mentrau cymdeithasu Nadoligaidd.
Rhif ffôn: 01792 648866
Gwefan: ageuk.org.uk/cymru/west-glamorgan

**Cwmni Buddiant Cymunedol Canolfan Llesiant Abertawe Ymgynnull Dydd Nadolig**
Pryd: 25 Rhagfyr Amser: Rhwng 2pm a 5pm
Lle: Canolfan Llesiant Abertawe, Heol Walter, Abertawe, SA1 5PQ
Peidiwch â bod ar eich pen eich hun y Nadolig hwn
Mae cadw lle yn hanfodol – cysylltwch â Lucy ar 07833 232272.

**Gan bob un ohonom yng Nghyngor Cymuned y Mwmbwls, dymunwn i chi dymor Nadolig diogel, llawen a chynnes, a blwyddyn newydd lewyrchus.**